



RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) Human Transplantation (Wales) Bill

Mae'r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered

Mae'r testun mewn italig wedi'i ddarparu gan y sawl a gynigiodd y gwelliant perthnasol i
esbonio ei ddiben ac i gynorthwyo'r darlennydd. Nid yw'r testun yn rhan o eiriad y
gwelliant.

The text in italics has been provided by the proposer of the relevant amendment to explain
its purpose and to aid the reader's understanding. The text does not form part of the
amendment.

Caiff y Mesur ei ystyried yn y drefn a ganlyn –

The Measure will be considered in the following order –

Sections 1 - 20

Adrannau 1 - 20

Darren Millar

25

Section 2, page 1, after line 29, insert –

'() In pursuance of subsection (1), the Welsh Ministers must undertake pan-Wales awareness raising activities at least once in every 12 month period for the purpose of promoting transplantation.'

This amendment places a duty on Welsh Ministers to undertake an annual awareness raising campaign to promote organ donation.

Adran 2, tudalen 1, ar ôl llinell 29, mewnosoder –

- ‘() Yn unol ag is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru gynnal gweithgareddau codi ymwybyddiaeth Cymru gyfan o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o 12 mis er mwyn hyrwyddo trawsblannu.’

Mae’r gwelliant hwn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth flynyddol i hyrwyddo rhoi organau.

Darren Millar

26

Section 2, page 1, after line 29, insert –

- ‘() The Welsh Ministers must report annually to the National Assembly for Wales on the steps taken pursuant to subsections () and ().’

This amendment creates a requirement for Welsh Ministers to report annually to the National Assembly for Wales on the steps taken to promote transplantation under section 2.

Adran 2, tudalen 1, ar ôl llinell 29, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i Weinidogion Cymru adrodd yn flynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y camau a gymerwyd yn unol ag is-adrannau () a ().’

Mae’r gwelliant hwn yn creu gofyniad i Weinidogion Cymru adrodd yn flynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y camau a gymerwyd i hyrwyddo trawsblannu yn unol ag adran 2.

Darren Millar

27

To insert a new section –

‘Review of system of consent

() Duty of the Welsh Ministers to review the system of consent

Within a period of 3 years of commencement of the Act pursuant to section 19(2), the Welsh Ministers must review the system of consent as introduced by section 4 with a view to considering its continued operation.’

This amendment places a duty on Welsh Ministers to review the system of deemed consent within a period of 3 years of its commencement and to draw conclusions on whether it should continue to operate.

I fewnosod adran newydd –

‘Adolygu’r system gydsynio

() Dyletswydd Gweinidogion Cymru i adolygu’r system gydsynio

O fewn cyfnod o 3 blynedd i gychwyn y Ddeddf yn unol ag adran 19(2), rhaid i Weinidogion Cymru adolygu’r system gydsynio fel y’i cyflwynwyd gan adran 4 gyda golwg ar ystyried parhau i’w gweithredu.’

Mae’r gwelliant hwn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, o fewn cyfnod o 3 blynedd i gychwyn y Ddeddf, i adolygu’r system lle yr ystyrir bod cydsyniad wedi ei roi ac i benderfynu a ddylid parhau i’w gweithredu.

***Elin Jones**

22

Gyda chefnogaeth / Supported by: Darren Millar

Section 3, page 2, after line 16, insert—

- (4) In this Act a transplantation activity of the kind mentioned in subsection (2) is not a transplantation activity when undertaken wholly or mainly with a view to, or for the purpose of, composite transplantation.’

The purpose of this amendment is to ensure that the distinction between ‘life saving’ and ‘novel’ forms of organ donation is on the face of the bill, and to ensure that deemed consent does not apply to ‘novel’ forms of transplantation.

Adran 3, tudalen 2, ar ôl llinell 18, mewnosoder—

- (4) Yn y Ddeddf hon nid yw gweithgaredd trawsblannu o’r math a grybwyllir yn is-adran (2) yn weithgaredd trawsblannu pan y’i cynhelir yn llawn neu’n rhannol wrth ystyried trawsblannu cyfansawdd, neu at y diben hwnnw.’

Diben y gwelliant hwn yw sicrhau bod y gwahaniaeth rhwng mathau ‘achub bywyd’ a mathau ‘newydd’ o roi organau yn cael ei gynnwys ar wyneb y Bil, a sicrhau nad yw cydsyniad tybiedig yn gymwys i fathau ‘newydd’ o drawsblannu.

Mark Drakeford

1

Section 4, page 2, line 27, leave out ‘subsection (4)’ and insert—

‘the case is not one mentioned in the first column of Table 1 in subsection (3) and subsection (4) applies, or

- (c) the case is not one mentioned in the first column of Table 1 in subsection (3) and subsection (5)’.

Adran 4, tudalen 2, llinell 29, hepgorer ‘bod is-adran (4)’ a mewnosoder—

‘nad yw’r achos yn un a grybwyllir yng ngholofn cyntaf Tabl 1 yn is-adran (3) ac mae is-adran (4) yn gymwys, neu

- (c) nad yw’r achos yn un a grybwyllir yng ngholofn gyntaf Tabl 1 yn is-adran (3) ac mae is-adran (5)’.

Darren Millar

28

Section 4, page 3, Table 1, leave out lines 8 to 11, column 1.

This amendment relates to the introduction of the requirement for only one nominated representative, to eliminate the possibility of disputes arising between nominated representatives.

Adran 4, tudalen 3, Tabl 1, hepgorer llinellau 8 hyd at 11, colofn 1.

Mae’r gwelliant hwn yn ymwneud â chyflwyno gofyniad i enwebu un cynrychiolydd yn unig, er mwyn dileu unrhyw anghydfod posibl rhwng cynrychiolwyr enwebedig.

Darren Millar

29

Section 4, page 3, Table 1, leave out lines 8 to 11, column 2.

This amendment relates to the introduction of the requirement for only one nominated representative, to eliminate the possibility of disputes arising between nominated representatives.

Adran 4, tudalen 3, Tabl 1, hepgorer llinellau 8 hyd at 11, colofn 2.

Mae'r gwelliant hwn yn ymwneud â chyflwyno gofyniad i enwebu un cynrychiolydd yn unig, er mwyn dileu unrhyw anghydfod posibl rhwng cynrychiolwyr enwebedig.

Mark Drakeford

2

Section 4, page 3, Table 1, after line 11, column 1, insert –

'4. The person has died, case 2 does not apply and the person had appointed a person or persons to deal with the issue of consent in relation to the activity, but no one is able to give consent under the appointment.'

Adran 4, tudalen 3, Tabl 1, ar ôl llinell 11, colofn 1, mewnosoder –

'4. Mae'r person wedi marw, nid yw achos 2 yn gymwys ac yr oedd y person wedi penodi person neu bersonau i ymdrin â'r mater o gydsynio mewn perthynas â'r gweithgaredd, ond nid oes neb yn gallu rhoi cydsyniad o dan y penodiad.'

Darren Millar

30

Section 4, page 3, Table 1, after line 11, column 1, insert –

'3. The person has died, case 2 does not apply and the person had appointed a person to deal with the issue of consent in relation to the activity.'

This amendment relates to the introduction of the requirement for only one nominated representative, to eliminate the possibility of disputes arising between nominated representatives.

Adran 4, tudalen 3, Tabl 1, ar ôl llinell 11, colofn 1, mewnosoder –

'3. Mae'r person wedi marw, nid yw achos 2 yn gymwys ac yr oedd y person wedi penodi person i ymdrin â'r mater o gydsynio mewn perthynas â'r gweithgaredd.'

Mae'r gwelliant hwn yn ymwneud â chyflwyno gofyniad i enwebu un cynrychiolydd yn unig, er mwyn dileu unrhyw anghydfod posibl rhwng cynrychiolwyr enwebedig.

Mark Drakeford

3

Section 4, page 3, Table 1, after line 11, column 2, insert –

'Consent of a person who stood in a qualifying relationship to the person immediately before death.'

Adran 4, tudalen 3, Tabl 1, ar ôl llinell 11, colofn 2, mewnosoder –

'Cydsyniad person a oedd mewn perthynas gymhwysol â'r person yn union cyn iddo farw.'

Darren Millar

31

Section 4, page 3, Table 1, after line 11, column 2, insert –

‘Consent given by the person appointed.’.

This amendment relates to the introduction of the requirement for only one nominated representative, to eliminate the possibility of disputes arising between nominated representatives.

Adran 4, tudalen 3, Tabl 1, ar ôl llinell 11, colofn 2, mewnosoder –

‘Cydsyniad a roddir gan y person a benodir.’.

Mae’r gwelliant hwn yn ymwneud â chyflwyno gofyniad i enwebu un cynrychiolydd yn unig, er mwyn dileu unrhyw anghydfod posibl rhwng cynrychiolwyr enwebedig.

Mark Drakeford

4

Section 4, page 3, leave out lines 13 to 16 and insert –

- () a relative or friend of long standing of the deceased objects on the basis of views held by the deceased, and
- () a reasonable person would conclude that the relative or friend knows that the most recent view of the deceased before death on consent for transplantation activities was that the deceased was opposed to consent being given.
- () This subsection applies if the transplantation activity involves relevant material of a type specified by the Welsh Ministers in regulations.’.

Adran 4, tudalen 3, hepgorer llinellau 13 hyd at 16 a mewnosoder –

- () os yw perthynas neu gyfaill ers amser maith i’r ymadawedig yn gwrthwynebu ar sail barn yr ymadawedig, a
- () pe byddai person rhesymol yn dod i’r casgliad bod y perthynas neu’r cyfaill yn gwybod mai barn ddiweddaraf yr ymadawedig cyn iddo farw ar gydsynio i weithgareddau trawsblannu oedd bod yr ymadawedig yn gwrthwynebu i gydsyniad gael ei roi.
- () Mae’r is-adran hon yn gymwys os yw’r gweithgaredd trawsblannu yn ymwneud â deunydd perthnasol o fath a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.’.

Darren Millar

32

Section 4, page 3, line 15, leave out ‘provides information that would lead a reasonable person to conclude that the deceased would not have consented’ and insert –

‘objects on the basis of –

- (i) the views of the deceased, or
- (ii) the likely views of the deceased; and
- (c) a reasonable person would conclude that the person who stood in a qualifying relationship to the deceased immediately before death knows that –
 - (i) the most recent view of the deceased before death was that the deceased was opposed to consent being given, or

- (ii) the likely view of the deceased before death was that the deceased was opposed to consent being given.’.

This amendment precludes the consent of the deceased from being deemed where a person in a qualifying relationship objects to transplantation on the basis of the views of the deceased or the likely views of the deceased.

Adran 4, tudalen 3, llinell 15, hepgorer ‘darparu gwybodaeth a fyddai’n arwain person rhesymol i’r casgliad na fyddai’r ymadawedig wedi cydsynio’ a mewnosoder –
‘gwrthwynebu ar sail –

- (i) barn yr ymadawedig, neu
 - (ii) barn debygol yr ymadawedig; ac
- (c) os byddai person rhesymol yn dod i’r casgliad bod y sawl a oedd mewn perthynas gymhwysol â’r ymadawedig yn gwybod –
- (i) mai barn fwyaf diweddar yr ymadawedig cyn iddo farw oedd fod yr ymadawedig yn gwrthwynebu rhoi cydsyniad, neu
 - (ii) mai barn debygol yr ymadawedig cyn iddo farw oedd fod yr ymadawedig yn gwrthwynebu rhoi cydsyniad.’.’.

Mae’r gwelliant hwn yn atal ystyried bod cydsyniad yr ymadawedig wedi cael ei roi pan fo person sydd mewn perthynas gymhwysol yn gwrthwynebu trawsblannu ar sail barn yr ymadawedig neu farn debygol yr ymadawedig.

Elin Jones

23

Section 4, page 3, after line 16, insert –

- ‘() Where Case 1 or Case 2 applies, the decision of the person to consent cannot be overridden by a person who stood in a qualifying relationship to the deceased immediately before death.’.

The purpose of this amendment is to ensure that people who ‘opt in’ into organ donation cannot have their wishes to donate over-ridden by a family member.

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 16, mewnosoder –

- ‘() Pan fo Achos 1 neu Achos 2 yn gymwys, ni ellir gwrthwneud cydsyniad datganedig y person gan berson a oedd mewn perthynas gymhwysol â’r ymadawedig yn union cyn iddo farw.’.

Diben y gwelliant hwn yw sicrhau na all aelod o’r teulu wrthwneud dymuniadau pobl sy’n optio i mewn ar gyfer rhoi organau.

Darren Millar

33

Section 4, page 3, after line 16, insert –

- ‘(c) a person who stood in a qualifying relationship to the deceased immediately before death would be caused undue distress by the transplantation activity.’.

This amendment would prevent transplantation activity from taking place if a person in a qualifying relationship to the deceased would be caused undue distress if the activity went ahead.

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 16, mewnosoder –

‘(c) os byddai’r gweithgaredd trawsblannu yn peri gofid gormodol i’r person a oedd mewn perthynas gymhwysol â’r ymadawedig yn union cyn iddo farw.’.

Byddai’r gwelliant hwn yn atal gweithgaredd trawsblannu rhag digwydd os byddai’n peri gofid gormodol i’r person sydd mewn perthynas gymhwysol â’r ymadawedig pe bai’r gweithgaredd yn digwydd.

Darren Millar

34

Section 4, page 3, after line 16, insert –

‘() Where Case 1, Case 2 or Case 3 applies, the express consent of the person cannot be overridden by a person who stood in a qualifying relationship to the deceased immediately before death.’.

This amendment provides that the express consent of the deceased, whether to opt-in or opt-out, cannot be overridden by the views of those in a qualifying relationship to the deceased.

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 16, mewnosoder –

‘() Pan fydd Achos 1, Achos 2 neu Achos 3 yn gymwys, ni ellir gwrthwneud cydsyniad datganedig y person gan berson a oedd mewn perthynas gymhwysol â’r ymadawedig yn union cyn iddo farw.’.

Mae’r gwelliant hwn yn darparu na all barn person sydd mewn perthynas gymhwysol â’r ymadawedig wrthwneud cydsyniad datganedig yr ymadawedig, naill ai i roi neu i beidio â rhoi organau.

Darren Millar

35

Section 4, page 3, line 17, leave out ‘or persons’.

This amendment relates to the introduction of the requirement for only one nominated representative, to eliminate the possibility of disputes arising between nominated representatives.

Adran 4, tudalen 3, llinell 17, hepgorer ‘neu bersonau’.

Mae’r gwelliant hwn yn ymwneud â chyflwyno gofyniad i enwebu un cynrychiolydd yn unig, er mwyn dileu unrhyw anghydfod posibl rhwng cynrychiolwyr enwebedig.

***Darren Millar**

36

Gyda chefnogaeth / Supported by: Elin Jones

Section 5, page 3, line 26, leave out ‘6’ and insert ‘12’.

This amendment would ensure that consent for transplantation activity cannot be deemed for anyone who has been ordinarily resident in Wales for 12 months or less before they die, thus providing a greater opportunity for residents to be exposed to at least one annual campaign to promote transplantation.

Adran 5, tudalen 3, llinell 26, hepgorer '6' a mewnosoder '12'.

Byddai'r gwelliant hwn yn sicrhau na ellir ystyried bod cydsyniad wedi'i roi ar gyfer gweithgaredd trawsblannu i unrhyw un sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yng Nghymru am gyfnod o 12 mis neu lai yn union cyn iddo farw, gan felly roi mwy o gyfle i breswylwyr ddod ar draws o leiaf un ymgyrch flynyddol i hyrwyddo trawsblannu.

***Darren Millar**

37

Gyda chefnogaeth / Supported by: Elin Jones

Section 5, page 3, after line 26, insert—

'() an adult who has died and was ordinarily resident in Wales for the period specified in subsection (3)(a) immediately before dying and was so resident by reason only of serving a term of imprisonment of a period greater than said period.'

This amendment would remove those prisoners who are only resident in Wales as a consequence of their imprisonment from the deemed consent system.

Adran 5, tudalen 3, ar ôl llinell 26, mewnosoder—

'() oedolyn sydd wedi marw ac a oedd yn preswyllo fel arfer yng Nghymru am y cyfnod a bennir yn is-adran (3)(a) yn union cyn marw ac a oedd yn preswyllo yno dim ond am ei fod yn y carchar am gyfnod hwy na'r cyfnod dywededig.'

Byddai'r gwelliant hwn yn eithrio carcharorion sydd ond yn breswylwyr yng Nghymru oherwydd eu carchariad o'r system lle yr ystyrir bod cydsyniad wedi ei roi.

***Darren Millar**

38

Gyda chefnogaeth / Supported by: Elin Jones

Section 5, page 3, after line 26, insert—

'() an adult ('A') who has died and was ordinarily resident in Wales for the period specified in subsection (3)(a) immediately before dying and was so resident wholly or mainly for the purposes of attendance at an educational institution and for this purpose 'A' includes A's partner, parent and all other adults comprising 'A's household.'

This amendment would remove students who are only resident in Wales as a consequence of their education (and their families) from the deemed consent system.

Adran 5, tudalen 3, ar ôl llinell 26, mewnosoder—

'() oedolyn ('A') sydd wedi marw ac a oedd yn preswyllo fel arfer yng Nghymru am y cyfnod a bennir yn is-adran (3)(a) yn union cyn marw ac a oedd yn preswyllo yno yn llwyr neu'n bennaf at ddibenion mynychu sefydliad addysgol ac at y diben hwn mae 'A' yn cynnwys partner 'A', rhiant 'A' a phob oedolyn arall sy'n rhan o aelwyd 'A'.'

Byddai'r gwelliant hwn yn eithrio myfyrwyr sydd ond yn breswylwyr yng Nghymru oherwydd eu haddysg (a'u teuluoedd) o'r system lle yr ystyrir bod cydsyniad wedi ei roi.

***Darren Millar**

39

Gyda chefnogaeth / Supported by: Elin Jones

Section 5, page 3, after line 26, insert –

() an adult ('A') who has died and was ordinarily resident in Wales for the period specified in subsection (3)(a) immediately before dying and was so resident wholly or mainly for the purposes of service in the naval, military or air forces, and for this purpose 'A' includes 'A's partner, parent and all other adults comprising 'A's household,'.

This amendment would remove armed forces personnel who are only resident in Wales as a consequence of their service (and their families) from the deemed consent system.

Adran 5, tudalen 3, ar ôl llinell 26, mewnosoder –

() oedolyn ('A') sydd wedi marw ac a oedd yn preswyllo fel arfer yng Nghymru am y cyfnod a bennir yn is-adran (3)(a) yn union cyn marw ac a oedd yn preswyllo yno yn llwyr neu'n bennaf at ddibenion gwasanaethu yn y lluoedd môr, y lluoedd arfog neu'r lluoedd awyr, ac at y diben hwn mae 'A' yn cynnwys partner 'A', rhiant 'A' a phob oedolyn arall sy'n rhan o aelwyd 'A',.

Byddai'r gwelliant hwn yn eithrio milwyr y lluoedd arfog sydd ond yn breswylwyr yng Nghymru oherwydd eu gwasanaeth (a'u teuluoedd) o'r system lle yr ystyrir bod cydsyniad wedi ei roi.

Mark Drakeford

5

Section 5, page 4, Table 2, after line 8, column 1, insert –

'3. Case 1 does not apply and the excepted adult had appointed a person or persons to deal with the issue of consent in relation to the activity, but no one is able to give consent under the appointment.'

Adran 5, tudalen 4, Tabl 2, ar ôl llinell 10, colofn 1, mewnosoder –

'3. Nid yw achos 1 yn gymwys ac yr oedd yr oedolyn a eithrir wedi penodi person neu bersonau i ymdrin â'r mater o gydsynio mewn perthynas â'r gweithgaredd, ond nid oes neb yn gallu rhoi cydsyniad o dan y penodiad.'

Mark Drakeford

6

Section 5, page 4, Table 2, after line 8, column 2, insert –

'Consent of a person who stood in a qualifying relationship to the excepted adult immediately before death.'

Adran 5, tudalen 4, Tabl 2, ar ôl llinell 10, colofn 2, mewnosoder –

'Cydsyniad person a oedd mewn perthynas gymhwysol â'r oedolyn a eithrir yn union cyn iddo farw.'

Mark Drakeford

7

Section 5, page 4, Table 2, leave out lines 9 to 11, column 1.

Adran 5, tudalen 4, Tabl 2, hepgorer llinellau 11 hyd at 13, colofn 1.

Mark Drakeford

8

Section 5, page 4, Table 2, leave out lines 9 to 11, column 2.

Adran 5, tudalen 4, Tabl 2, hepgorer llinellau 11 hyd at 13, colofn 2.

Mark Drakeford

9

Section 5, page 4, Table 2, after line 11, column 1, insert –

‘4. None of cases 1, 2 or 3 applies in relation to the excepted adult.’

Adran 5, tudalen 4, Tabl 2, ar ôl llinell 13, colofn 1, mewnosoder –

‘4. Nid yw achosion 1, 2 na 3 yn gymwys mewn perthynas â’r oedolyn a eithrir.’

Mark Drakeford

10

Section 5, page 4, Table 2, after line 11, column 2, insert –

‘Consent of a person who stood in a qualifying relationship to the excepted adult immediately before death.’

Adran 5, tudalen 4, Tabl 2, ar ôl llinell 13, colofn 2, mewnosoder –

‘Cydsyniad person a oedd mewn perthynas gymhwysol â’r oedolyn a eithrir yn union cyn iddo farw.’

Darren Millar

40

Section 7, page 5, line 18, leave out ‘one or more persons’ and insert ‘a person’.

This amendment relates to the introduction of the requirement for only one nominated representative, to eliminate the possibility of disputes arising between nominated representatives.

Adran 7, tudalen 5, llinell 23, hepgorer ‘un neu ragor o bersonau’ a mewnosoder ‘person’.

Mae’r gwelliant hwn yn ymwneud â chyflwyno gofyniad i enwebu un cynrychiolydd yn unig, er mwyn dileu unrhyw anghydfod posibl rhwng cynrychiolwyr enwebedig.

Darren Millar

41

Section 7, page 5, line 32, leave out ‘a person appoints two or more persons in relation to the same transplantation activity, they’ and insert ‘subsection (11) applies, two or more persons appointed in relation to the same transplantation activity’.

This amendment provides for multiple nominated representatives where they were appointed before the implementation of a deemed consent system.

Adran 7, tudalen 5, llinell 37, hepgorer ‘person yn penodi dau berson neu ragor mewn perthynas â’r un gweithgaredd trawsblannu, maent’ a mewnosoder ‘is-adran (11) yn gymwys, mae dau berson neu ragor a benodwyd mewn perthynas â’r un gweithgaredd trawsblannu’.

Mae’r gwelliant hwn yn darparu ar gyfer mwy nag un cynrychiolydd enwebedig lle y cawsant eu penodi cyn dechrau’r system lle yr ystyrir bod cydsyniad wedi ei roi.

Mark Drakeford

11

Section 7, page 6, after line 11, insert—

‘(12) For the purpose of sections 4(3) and 5(4) if it is not reasonably practicable to communicate with a person appointed under this section within the time available if consent is to be acted upon, the person is to be treated as being not able to give consent to an activity under the appointment.’.

Adran 7, tudalen 6, ar ôl llinell 12, mewnosoder—

‘(12) At ddiben adrannau 4(3) a 5(4) os nad yw’n rhesymol ymarferol cyfathrebu â pherson a benodir o dan yr adran hon o fewn yr amser sydd ar gael os yw’r cydsyniad i gael ei roi ar waith, mae’r person i gael ei drin fel pe na bai’n gallu rhoi cydsyniad i weithgaredd o dan y penodiad.’.

Mark Drakeford

12

Section 8, page 6, leave out lines 21 to 22.

Adran 8, tudalen 6, hepgorer llinellau 24 hyd at 25.

Mark Drakeford

13

Section 14, page 9, line 7, after ‘section’, insert ‘4(3),’.

Adran 14, tudalen 9, llinell 7, ar ôl ‘section’, mewnosoder ‘4(3),’.

Mark Drakeford

14

Section 14, page 9, after line 15, insert—

‘(8B) In giving practical guidance on the circumstances in which consent is deemed the authority must, in particular, give guidance on how a relative or friend of long standing of the deceased can object on the basis of the deceased’s wishes.’.

Adran 14, tudalen 9, ar ôl llinell 15, mewnosoder—

‘(8B) In giving practical guidance on the circumstances in which consent is deemed the authority must, in particular, give guidance on how a relative or friend of long standing of the deceased can object on the basis of the deceased’s wishes.’.

Mark Drakeford

15

Section 14, page 9, line 17, after ‘section’, insert ‘4(3),’.

Adran 14, tudalen 9, llinell 17, ar ôl ‘section’, mewnosoder ‘4(3),’.

Mark Drakeford 16

Section 14, page 9, line 20, after 'section', insert '4(3)'.

Adran 14, tudalen 9, llinell 20, ar ôl 'section', mewnosoder '4(3)'.

Mark Drakeford 17

Section 14, page 9, after line 21, insert—

'(11) Before making an order under subsection (10) the Welsh Ministers must carry out such public consultation as they consider appropriate.'"

Adran 14, tudalen 9, ar ôl llinell 21, mewnosoder—

'(11) Before making an order under subsection (10) the Welsh Ministers must carry out such public consultation as they consider appropriate.'"

Mark Drakeford 18

Section 14, page 9, leave out lines 31 to 32 and insert—

'() the National Assembly has approved the draft by resolution.'"

Adran 14, tudalen 9, hepgorer llinellau 31 hyd at 32 a mewnosoder—

'() the National Assembly has approved the draft by resolution.'"

Mark Drakeford 19

Section 15, page 11, line 1, leave out '(6)' and insert '(5)'.

Adran 15, tudalen 11, llinell 1, hepgorer '(6)' a mewnosoder '(5)'.

***Elin Jones** 24

Gyda chefnogaeth/ Supported by: Darren Millar

To insert a new section—

'() Amendment to the National Health Service (Wales) Act 2006

Section 3 of the National Health Service (Wales) Act 2006 is amended as follows—

“(g) such other services or facilities as are required in connection with the obtaining of consent under the Human Transplantation (Wales) Act 2013;”"

The purpose of this amendment is to ensure that the minister/lhbs have a duty to create specialist nurse posts for the purpose of promoting organ donation (snods)

I fewnosod adran newydd –

() Diwygiad i Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006

Mae adran 3 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 wedi ei diwygio fel a ganlyn –

“(g) such other services or facilities as are required in connection with the obtaining of consent under the Human Transplantation (Wales) Act 2013;”’.

Diben y gwelliant hwn yw sicrhau bod dyletswydd ar y Gweinidog/y byrddau iechyd lleol i greu swyddi niwsys arbenigol at ddiben hyrwyddo rhoi organau.

Darren Millar

42

Section 17, page 12, line 23, leave out ‘The following are qualifying relationships for the purpose of this Act’ and insert ‘For the purposes of this Act, the following are qualifying relationships and rank in the order set out below. In the event of dispute the highest ranking relationship will take precedence’.

This amendment establishes a ranking system for those in a qualifying relationship to the deceased in order to support the resolution of any disputes which may arise as a result in their involvement in the deemed consent system.

Adran 17, tudalen 12, llinell 24, hepgorer ‘Mae’r canlynol yn berthnasoedd cymhwysol at ddiben y Ddeddf hon’ a mewnosoder ‘At ddibenion y Ddeddf hon, mae’r canlynol yn berthnasoedd cymhwysol ac maent wedi’u rhestru yn y drefn a nodir isod. Os bydd anghydfod y berthynas uchaf ar y rhestr fydd yn cael blaenoriaeth’.

Mae’r gwelliant hwn yn sefydlu system rancio ar gyfer y rhai a oedd mewn perthynas gymhwysol â’r ymadawedig er mwyn cynorthwyo i ddatrys unrhyw anghydfod a allai godi o ganlyniad i’w cysylltiad â’r system lle yr ystyrir bod cydsyniad wedi ei roi.

Mark Drakeford

20

Section 18, page 13, after line 18, insert –

‘() Before making an order or regulations under this Act the Welsh Ministers must carry out such public consultation as they consider appropriate.’.

Adran 18, tudalen 13, ar ôl llinell 18, mewnosoder –

‘() Cyn gwneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon rhaid i Weinidogion Cymru gynnal unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus sy’n briodol yn eu barn hwy.’.

Mark Drakeford

21

Section 18, page 13, line 22, leave out ‘Subsection (3) does’ and insert ‘Subsections () and (3) do’.

Adran 18, tudalen 13, llinell 22, hepgorer ‘is-adran’ a mewnosoder ‘is-adrannau () a’.